





# CYNLLUN GWEITHREDU LLEOL

## 2023-28



# CEFNDIR

Mae **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent (BGC)** yn dod â chyrff cyhoeddus ynghyd i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Gwent. Daeth hyn ar ôl i'r pum BGC blaenorol yng Ngwent gael eu diddymu ym mis Medi 2021, er mwyn cyfuno a chreu BGC Gwent.

Nhw sydd yn gyfrifol, **o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**, am oruchwylio datblygiad y Cynllun Llesiant Lleol newydd sy'n weledigaeth hirdymor ar gyfer yr ardal. Cymeradwywyd **Cynllun Llesiant Gwent 2023-28** gan y BGC ar 20 Gorffennaf 2023, a chefnogwyd gan **Asesiad Llesiant Gwent** a gyhoeddwyd ar 5 Mai 2022.

**Mae Casnewydd yn Un (BGC lleol gynt),** ar ôl yr uno rhanbarthol wedi dod yn is-grŵp (Grŵp Cyflawni Lleol) o BGC Gwent, ac mae'n cynnwys yr aelodau ganlynol:

- Cyngor Dinas Casnewydd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Gwasanaethau Prawf
- Prifysgol De Cymru
- Heddlu Gwent
- Partneriaeth Trydydd Sector Casnewydd
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent
- Cartrefi Dinas Casnewydd sy'n cynrychioli'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Coleg Gwent
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Casnewydd Byw yn cynrychioli'r sector diwylliant
- Cyngor Ieuenctid Casnewydd
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent
- Busnes yn y Gymuned

Cysylltwch â **one.newport@newport.gov.uk** am fwy o fanylion neu **ewch i'n gwefan**

***Mae gan Casnewydd yn Un y tasgau canlynol:***

- Cyflawni blaenoriaethau lleol o fewn Cynllun Llesiant Gwent a chyfrannu at brosiectau rhanbarthol.
- Datblygu a darparu gweithgarwch yng Nghasnewydd a fyddai'n elwa o ddull partneriaeth cryf.

Gwneir drwy'r Cynllun Gweithredu Lleol hwn a fydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent ond a fydd hefyd yn sicrhau bod materion unigryw Casnewydd yn cael y sylw y maent yn ei haeddu.

Nid yw busnes o ddydd i ddydd sefydliadau Casnewydd yn Un wedi'i gynnwys yn y cynllun hwn. Yn hytrach, mae'r cynllun hwn yn ymwneud â'r pethau ychwanegol y mae angen i ni ganolbwyntio arnynt i wneud Casnewydd yn lle gwell heddiw a hefyd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn golygu y gallai peth o'r gwaith hwn gymryd rhai blynyddoedd i wneud gwahaniaeth go iawn, ond bydd angen i ni ddechrau'n fuan, er enghraifft trwy atal problemau iechyd a chymdeithasol, neu sicrhau bod gan bobl y sgiliau y bydd eu hangen ar gyflogwyr yn y blynyddoedd i ddod.



# CYNLLUN LLES GWENT




*Gellir gweld Egwyddorion Marmot ar **Wefan Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent (BGC)**

# CYNLLUN GWEITHREDU LLEOL CASNEWYDD YN UN – THEMÂU

**Mae gan ein cynllun gweithredu lleol dair thema neu faes gwaith:**

- Yr Economi a Diwylliant
- Cymunedau
- Yr Amgylchedd

Mae'r cod lliw isod yn dangos sut mae'r camau gweithredu o dan y themâu yn cysylltu â dau Amcan Cynllun Lles Gwent, neu oes gwaith lleol, strategol arall yng Nghasnewydd fyddai'n cael ei gyflawni orau mewn partneriaeth.

**Amcanion Lles BGC Gwent:** Rydym am i Went fod yn decach, yn fwy cyfartal, ac yn fwy cynhwysol i bawb.

**Amcanion Lles BGC Gwent:** Rydym am i Went fod yn barod o ran yr hinsawdd, gan roi gwerth ar ein hamgylchedd a'i ddiogelu er ein budd ni nawr a chenedlaethau'r dyfodol hefyd.

**Prosiectau strategol yng Nghasnewydd i'w cyflawni mewn partneriaeth.**



# THEMA – YR ECONOMI A DIWYLLIANT

**Sicrhau bod cyfleoedd ar gael ac yn cael eu hyrwyddo i bobl ar bob cam o'u bywydau ddatblygu a gwella eu haddysg a'u sgiliau.**

- **Sylwer:** Mae hyn yn golygu partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i helpu plant, pobl ifanc ac oedolion i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth fel y gallant gyflawni eu potensial, dod o hyd i'r gyflogaeth gywir, a chefnogi eu lles eu hunain ac eraill.

**Hyrwyddo gwaith teg a helpu pobl allan o dlodi, gan gynnwys arwain Casnewydd i fod yn Ddinas Cyflog Byw.**

- **Sylwer:** Mae gwaith teg yn golygu bod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo'n deg, yn cael eu clywed a'u cynrychioli, ac yn gallu symud ymlaen mewn amgylchedd gwaith diogel, iach a chynhwysol. Mewn Dinas Cyflog Byw, mae cymunedau a busnesau yn cydweithio i fynd i'r afael â chyflogau isel.

**Datblygu prosiectau adeiladu cyfoeth cymunedol i gadw gwariant o fewn yr economi leol.**

- **Sylwer:** Gallai adeiladu cyfoeth cymunedol helpu i wneud economi Casnewydd yn gryfach, gan fod o fudd i bobl leol. Enghraifft yw pan fydd sefydliad yn prynu ei nwyddau a'i wasanaethau gan fusnes lleol, yn hytrach na chyflenwr o ymhellach i ffwrdd. Gall hyn helpu'r busnes lleol i dyfu a chreu swyddi, sy'n rhoi mwy o arian i bobl wario, o bosibl mewn siopau a bwytai lleol.



**Cefnogi adfywio canol y ddinas ar gyfer teuluoedd, busnesau ac ymwelwyr drwy Uwchgynllun Canol y Ddinas a chydweithio â phartneriaid gan gynnwys Ardal Gwella Busnes Casnewydd Nawr a rhaglen Lle Busnes yn y Gymuned yng Nghasnewydd.**

- **Sylwer:** Byddai uwchgynllun yn nodi prosiectau blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi yng nghanol y ddinas a fyddai'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl sy'n byw, gweithio ac yn ymweld ynddo. Mae Ardal Gwella Busnes Newport Now yn goruchwylio marchnata a rheoli canol y ddinas, gan gynrychioli busnesau canol y ddinas. Mae Busnes yn y Gymuned a'i rwydwaith o fusnesau yn canolbwyntio ar dyfu arferion busnes cyfrifol, er mwyn cael mwy o effaith gymdeithasol ac amgylcheddol. Mae'r Rhaglen Lleoedd yn ymwneud â dod â phawb ynghyd mewn lle i weithredu ar gytundeb cyffredin o'r heriau, y cyfleoedd a'r atebion, gan ddefnyddio cryfderau pawb yn y gymuned honno.

**Datblygu a chyflwyno Strategaeth Chwaraeon ar gyfer Casnewydd, sy'n annog datblygiad ar lawr gwlad, yn cynyddu cyfranogiad cymunedol, ac yn cryfhau ein rôl fel dinas chwaraeon elitaidd.**

- **Sylwer:** Mae'n hysbys bod cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn gwella iechyd corfforol a meddyliol, ac ansawdd bywyd i lawer. Byddai strategaeth a rennir yn cynyddu cyfleoedd i bobl fwynhau a chymryd rhan mewn chwaraeon, yn ogystal â denu pobl i Gasnewydd ar gyfer digwyddiadau chwaraeon, a fyddai'n cefnogi'r economi leol.

**Cefnogi'r gwaith o gyflawni strategaeth sy'n dathlu diwylliant, amrywiaeth a threftadaeth Casnewydd, a hyrwyddo cyfranogiad ar gyfer lles.**

- **Sylwer:** Mae'n hysbys bod cymryd rhan yn y celfyddydau - theatr, sinema, celf, cerddoriaeth ac ati - yn gwella lles ac ansawdd bywyd i lawer. Byddai strategaeth a rennir yn adeiladu ar ac yn hyrwyddo grwpiau a chyfleusterau amrywiol y celfyddydau yng Nghasnewydd, atyniadau hanesyddol pwysig, poblogaeth amlddiwylliannol, a phobl greadigol dalentog - gan helpu pobl i gymryd rhan, a chefnogi cysylltiadau cymdeithasol a mwynhad mewn bywyd yn y ddinas.

**Galluogi a hyrwyddo rhaglen ddigwyddiadau amrywiol gyd-gysylltiedig sy'n dod â chymunedau ynghyd ac yn codi proffil y ddinas, gan greu buddion cymdeithasol ac economaidd.**

- **Sylwer:** Byddai rhaglen eang o ddigwyddiadau a ddatblygwyd gyda phartneriaid yn helpu i ddathlu cryfderau pobl Casnewydd a'u cymunedau, cynyddu ansawdd bywyd a bywiogrwydd y ddinas, a denu ymwelwyr, a fyddai'n fuddiol i fusnesau lleol.



# THEMA – CYMUNEDAU

**Cynyddu cyfleoedd gwirfoddoli a grymuso preswylwyr i wneud eu cymunedau'n gryfach ac yn fwy gwydn.**

- **Sylwer:** Gallai hyn olygu adeiladu ar waith cyllidebu cyfranogol sydd eisoes wedi'i wneud yng Nghasnewydd, sy'n caniatáu i drigolion benderfynu ar sut mae arian cyhoeddus yn cael ei wario er budd cymunedau, gwella'r cymorth y mae Casnewydd yn Un yn ei roi i'r sectorau gwirfoddol ac elusennol, a chynyddu cyfranogiad preswylwyr mewn gwaith datblygu cymunedol. Bydd bod yn fwy gwydn yn golygu bod cymunedau'n gallu ymdopi ag anawsterau yn uniongyrchol a chael strategaethau ar waith i ddelio â sefyllfaoedd fel yr argyfwng ariannol, newid yn yr hinsawdd, materion iechyd, ac ati.

**Datblygu dull integredig o fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb.**

- **Sylwer:** Yn syml, mae anghydraddoldeb yn cyfeirio at y sefyllfa pan fydd gan rai grwpiau o bobl fwy neu lai o fanteision/cyfleoedd nag eraill. Mae hyn yn ymwneud â phartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd a chynnwys cymunedau i wella lles. Byddai enghreifftiau yn cynnwys cydweithio i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw, mabwysiadu dulliau cyffredin ar draws yr asiantaethau sy'n cefnogi plant a theuluoedd a rhoi rhaglenni ardal ar waith yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, gan adeiladu ar waith ym Mhilgwenlli a Ringland.

**Hyrwyddo a chefnogi Rhwydweithiau Lles Integredig (RhLlI) Casnewydd wrth gysylltu a gwella asedau cymunedol.**

- **Sylwer:** Mae Rhwydweithiau Integredig a Lles yn bartneriaethau amlasiantaeth ac amlsector sy'n gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â materion mewn ardaloedd difreintiedig, gan gynnwys mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Byddwn yn adeiladu ar y Rhwydweithiau sydd ar waith ym Mhilgwenlli a Ringland ac yn ceisio ehangu'r dull hwn i fwy o ardaloedd.

**Trechu ac atal digartrefedd drwy strategaethau a chynlluniau cydweithredol.**

- **Sylwer:** Byddwn yn ceisio ymyrryd yn gynnar er mwyn atal digartrefedd a thrin digartrefedd fel mater gwasanaethau cyhoeddus ar y cyd - yn hytrach na mater tai yn unig, drwy gydweithio i ddefnyddio safbwyntiau a syniadau gwahanol. Byddai'n golygu bod gwasanaethau'n 'gosod yr unigolyn yn y canol' a chydnabod y gallai pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref fod wedi profi trawma yn eu bywydau.

**Goruchwylio gweithrediad Uwchgynllun Pilgwenlli i wella'r amgylchedd ffisegol, cymunedol ac economaidd. Defnyddio'r dysgu hwn mewn cymunedau eraill.**

- **Sylwer:** Mae Uwchgynllun Pilgwenlli yn ddull amlasiantaethol, sy'n canolbwyntio ar Bilgwenlli. Mae'n dilyn llawer o ymgysylltu â'r gymuned sy'n golygu y bydd yr Uwchgynllun yn canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i bobl leol. Bydd gwersi a ddysgwyd ym Mhilgwenlli yn cael eu cymhwyso mewn ardaloedd eraill yng Nghasnewydd.

**Annog a hyrwyddo darpariaeth bwyd cynaliadwy a fforddiadwy.**

- **Sylwer:** Gallai hyn gynnwys mapio mynediad at fwyd a defnyddio caffael partner Casnewydd yn Un i gefnogi darpariaeth fwyd gynaliadwy, fforddiadwy. Lle bo'n bosibl, byddwn yn cefnogi darpariaeth fwyd leol (gan gydnabod nad yw Casnewydd yn ardal cynhyrchu bwyd o bwys), a fyddai hefyd yn cyfrannu at y gwaith adeiladu cyfoeth cymunedol yn ein thema Economi a Diwylliant.

**Cefnogi gwaith Casnewydd Ddiogelach i hyrwyddo dinas fwy cydlynol.**

- **Sylwer:** Casnewydd Ddiogelach yw partneriaeth diogelwch cymunedol y ddinas, sy'n canolbwyntio ar faterion diogelwch cymunedol lleol gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol troseddau difrifol a chyfundrefnol a materion cymdogaeth leol. Mae dinas fwy cydlynol yn cyfeirio at wahanol grwpiau o bobl yn fwy unedig, yn meddu ar ymdeimlad cyffredin o berthyn, ac yn gallu cyd-dynnu'n dda ag eraill o wahanol gefndiroedd.





# THEMA – YR AMGYLCHEDD

**Diogelu, cynyddu a gwella ein mannau gwyrdd a'n dyfrffyrdd ar gyfer natur a phobl.**

- **Sylwer:** Mae mannau gwyrdd a glas trefol hygyrch ac o ansawdd uchel, fel parciau, coedwigoedd trefol, strydoedd coed, rhandiroedd, glannau afonydd ac arfordiroedd, yn darparu buddion iechyd meddwl a chorfforol sylweddol i gymunedau lleol a hefyd yn helpu i leihau effeithiau llygredd aer a sŵn. Mae mannau gwyrdd a glas yn darparu cynefinoedd hanfodol i fywyd gwyllt ac yn cyfrannu at ecosystem iach a ffyniannus. Byddwn yn sicrhau bod ein mannau gwyrdd a glas, gan gynnwys ein gwarchodfeydd natur, yn cael eu diogelu a'u gwella ar gyfer cymunedau lleol a bywyd gwyllt.

**Annog a hyrwyddo Teithio fforddiadwy cynaliadwy a llesol fel y dulliau teithio a ffefrir yn y Ddinas.**

- **Sylwer:** Mae teithio llesol yn cwmpasu unrhyw fath o drafnidiaeth wedi'i phweru gan bobl, fel cerdded, beicio neu sgwtera, yn hytrach na defnyddio car neu gerbyd arall. Er mwyn annog teithio llesol o amgylch y ddinas byddwn yn parhau i ddatblygu llwybrau newydd ac uwchraddio'r rhai presennol (i'w gwneud yn fwy diogel ac yn fwy hygyrch) i gysylltu llwybrau teithio llesol presennol. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'n gilydd i annog teithio mwy cynaliadwy gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

**Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur, drwy weithredu ar y newid yn yr hinsawdd a gwarchod a gwella bioamrywiaeth.**

- **Sylwer:** Mae'r argyfwng hinsawdd a natur yn cyfeirio at yr argyfwng rydym yn ei wynebu oherwydd y newidiadau sylweddol a niweidiol sy'n digwydd yn ein hinsawdd a'n hamgylchedd naturiol. Bioamrywiaeth yw'r amrywiaeth o bethau byw ar y Ddaear, o facteria i anifeiliaid a phlanhigion, a'r gwahanol amgylcheddau y maent yn byw ynddynt. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur a lleihau ein cyfraniadau at newid yn yr hinsawdd.

**Darparu camau lliniaru newid yn yr hinsawdd drwy ein hamgylchedd adeiledig: Ystad y Sector Cyhoeddus // Tai // Seilwaith Gwyrdd Cysylltiedig.**

- **Sylwer:** Mae'r amgylchedd adeiledig, gan gynnwys adeiladau a thai, yn gyfrifol am gryn dipyn o'r allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n achosi newid yn yr hinsawdd. Drwy wneud newidiadau i'r ffordd rydym yn dylunio ac yn defnyddio adeiladau a thai, megis cynyddu effeithlonrwydd ynni a defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy, gallwn leihau'r allyriadau hyn a helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae seilwaith gwyrdd yn cyfeirio at rwydwaith cysylltiedig o nodweddion naturiol a lled-naturiol fel parciau, gerddi glaw a thoeau gwyrdd, sy'n darparu buddion lluosog i bobl a'r amgylchedd, megis cadwraeth bioamrywiaeth, rheoli llifogydd, puro aer, a chyfleoedd hamdden.

**Datblygu strategaethau newydd a chefnogi gweithredu strategaethau presennol i fynd i'r afael â pherygl llifogydd.**

- **Sylwer:** Mae Casnewydd wedi'i lleoli ym man cyfarfod Afon Wysg a Môr Hafren, sy'n ei gwneud yn agored i lifogydd o ffynonellau afonydd ac arfordirol. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i leihau'r risgiau o lifogydd.

**Hyrwyddo'r Economi Gylchol fel ffordd o leihau effeithiau cynhyrchu a defnyddio.**

- **Sylwer:** Nod yr economi gylchol yw parhau i ddefnyddio adnoddau cyhyd â phosibl drwy ddylunio cynhyrchion a systemau y gellir eu hailddefnyddio a'u hailgylchu, gan leihau gwastraff a llygredd. Byddwn yn gweithio i hyrwyddo egwyddorion yr economi werdd yn yr holl waith a wnawn.

